# Newidiadau i'ch casgliadau ailgylchu – Penarth, Dinas Powys, Llandochau, Sili a'r ardaloedd cyfagos

**O ddydd Llun 17 Ebrill 2023**



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**Bro Morgannwg yn ailgylchu**
**Vale of Glamorgan recycles**

For office use only: 02/23

# Beth sy'n newid?

**O ddydd Llun 17 Ebrill 2023:**

- bydd angen ichi ddidoli eich eitemau ailgylchadwy i wahanol gynwysyddion. Rydym wedi rhoi'r cynwysyddion hyn ichi:
  - **cadi llwyd** newydd ar gyfer eich **poteli a jariau gwydr**,
  - **bag oren** newydd ar gyfer eich **cardfwrdd**, a
  - **bag gwyn** newydd ar gyfer eich **papur**.
- defnyddiwch eich **bag glas** presennol ar gyfer eich **metelau, plastigion a chartonau bwyd a diod (fel Tetra Pak) cymysg**. Os nad oes gennych fag glas ar hyn o bryd, cewch gasglu un o'ch llyfrgell leol, neu gallwch gysylltu â ni.
- rydym yn cyflwyno casgliad ailgylchu newydd am ddim ar gyfer eich batris. Rydym wedi rhoi **bag bach gwyn** newydd ichi ar gyfer eich **batris o'r cartref**.
- rydym yn cyflwyno casgliad ailgylchu newydd am ddim ar gyfer eich eitemau trydanol bach. Os bydd arnoch angen cael gwared ag unrhyw **eitemau trydanol bach**, **gosodwch nhw'n rhydd ar ben un o'ch cadis neu fagiau ailgylchu**. Peidiwch â'u rhoi mewn unrhyw fath o gynhwysydd, yn cynnwys unrhyw fagiau plastig untro.



# Beth sy'n aros yr un fath?

- Ni fydd eich diwrnod casglu'n newid.
- Byddwn yn parhau i **gasglu eich ailgylchu bob wythnos**, ynghyd â'ch **gwastraff bwyd**.
- Byddwn yn parhau i **gasglu eich gwastraff o'r ardd bob pythefnos**, rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd.
- Byddwn yn parhau i **gasglu eich bagiau du ar gyfer eitemau na ellir eu hailgylchu bob pythefnos**. Cewch roi hyd at ddau fag du allan bob pythefnos.

**!**

**O 1 Gorffennaf 2023, byddwn yn gwneud newidiadau i'ch casgliadau gwastraff o'r ardd a'ch bagiau du. Byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân am y newidiadau hyn.**

# Pam ydych chi'n gwneud y newidiadau hyn?

- Mae casglu eich ailgylchu mewn cynwysyddion ar wahân yn gwella ansawdd yr ailgylchu a gasglwn gennych. Mae hyn yn golygu bydd mwy ohono'n aros yn y Deyrnas Unedig i gael ei ailgylchu, sy'n well i'r amgylchedd.
- Trwy gyflwyno casgliadau newydd ar gyfer eich batris ac eitemau trydanol bach, bydd yn ei gwneud yn haws fyth ichi ailgylchu mwy fyth o'ch gwastraff o gartref.
- Mae'n cyd-fynd â'r dull a argymhellir ar gyfer yr holl gasgliadau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu ledled Cymru a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn ein helpu i gyrraedd y targed o ailgylchu 70% o'n holl wastraff erbyn 2025.
- Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn eisoes wedi'u cyflwyno mewn rhannau eraill o Fro Morgannwg, ac rydym wedi gweld cynnydd yn swm yr ailgylchu a gaiff ei gasglu yn yr ardaloedd hynny, ynghyd â chynnydd yn ei ansawdd.

# Sut ddylwn i gyflwyno fy ailgylchu a fy ngwastraff na ellir ei ailgylchu?

1. Rhowch yr eitemau cywir yn y cynwysyddion cywir. (Gweler tudalennau 4 hyd 13 ar gyfer 'beth sy'n mynd i ble?')
2. Clymwch eich bagiau leinio cadi gwastraff bwyd a'ch bagiau du yn sownd.
3. Caewch y fflapiau a'r caeadau ar eich bagiau a chadis.
4. Defnyddiwch y bagiau, cadis a bagiau leinio gwastraff bwyd a ddarparwyd gan y Cyngor yn unig ar gyfer eich ailgylchu. Peidiwch â defnyddio unrhyw fath arall gynhwysydd, yn cynnwys unrhyw fagiau plastig untro.
5. Rhowch eich cynwysyddion yn eich man casglu cyn 7yb ar eich diwrnod casglu.
6. Casglwch eich bagiau a chadis o'ch man casglu unwaith y byddwn wedi'u gwagio.

**Angen nodyn atgoffa?**

**I gofrestru i dderbyn ebostiau atgoffa wythnosol am eich dyddiau casglu, ewch i'n gwefan.**



# Beth sy'n mynd i ble?

## Gwastraff bwyd



**Cadi gwyrdd**



### ✔ Ie, plîs

- ✔ Hen fagiau te a gwaddodion coffi
- ✔ Plisg wyau
- ✔ Crafion ffrwythau a llysiau
- ✔ Cig a physgod amrwd ac wedi'u coginio, yn cynnwys esgyrn a chregyn
- ✔ Crafion oddi ar eich plât
- ✔ Bwyd dros ben na ellir ei storio'n ddiogel i'w fwyta'n nes ymlaen
- ✔ Bwyd nad yw'n ddiogel i'w fwyta bellach
- ✔ Bwyd anifeiliaid

**Cofiwch:**

- pan fyddwch ar fin rhedeg allan o'r bagiau leinio ar gyfer eich cadi gwastraff bwyd yn y gegin, clymwch un ar handlen eich cadi mwy ar garreg y drws ar eich diwrnod casglu, a bydd ein criwiau'n gosod rholyn newydd o fagiau leinio wrth ei ymyl. Cewch hefyd gasglu bagiau leinio cadi o'ch llyfrgell leol

### ✘ Dim diolch

- ✘ Deunydd pacio o unrhyw fath
- ✘ Hylifau fel llaeth *
- ✘ Olewau neu fraster hylifol **
- ✘ Unrhyw ddeunydd nad yw'n wastraff bwyd

* Cewch arllwys symiau bach o fwyd hylifol neu ddiod i lawr y sinc, yn ddelfrydol ynghyd ag ychydig o ddŵr i sicrhau bod y gwastraff yn llifo i ffwrdd yn hawdd, heb flocio'r draeniau.

** Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol mewn cynhwysydd addas.

Os bydd angen ichi gael gwared ar unrhyw fraster sy'n solid neu ddim ond yn rhannol hylifol, rhowch y rhain yn eich bagiau du.



# Poteli a jariau gwydr



Cadi llwyd




## ✔ Ie, plîs

- ✔ Poteli gwydr, fel y rhai a ddefnyddir i ddal cwrw, gwin a diodydd ysgafn
- ✔ Jariau gwydr, fel y rhai sy'n dal bwyd babanod a sawsiau
- ✔ Poteli nad ydynt ar gyfer bwyd a diod, fel poteli persawr, persawr eillio ac eli wyneb

## Cofiwch:

- gwagiwch a rinsiwch eitemau gwydr
- tynnwch unrhyw gapiau neu gaeadau metel neu phlastig a'u rhoi yn eich bag glas ar gyfer metelau a phlastigion cymysg

## ✘ Dim diolch

- ✘ Eitemau ceramig neu Tsieina *
- ✘ Gwydrau yfed *
- ✘ Gwydr fflat, fel cwareli ffenestri *
- ✘ Drychau *
- ✘ Bylbiau golau *
- ✘ Llestri coginio gwydr, fel Pyrex *
- ✘ Platiau microdon *
- ✘ Fasau *
- ✘ Poteli farnais ewinedd *
- ✘ Gwydr wedi torri *

* Lapiwch yr eitemau hyn yn ddiogel mewn hen bapur newydd neu bapur cegin, neu eu bagio'n ddwbl, i sicrhau na chaiff criwiau eu hanafu wrth eu casglu, yna rhowch nhw yn eich bagiau du, neu ewch â nhw i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol.

Rydym yn casglu'ch **ailgylchu** o'ch cartref **bob wythnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Metelau a phlastigion cymysg



**Bag glas**



- **Caniau, tuniau, erosolau a ffoil metel**
- **Poteli, potiau a thybiau plastig**
- **Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak**

### ✔ Ie, plîs

**Metelau**

- ✔ Caniau diodydd, fel y rhai sy'n dal cwrw a diodydd ysgafn
- ✔ Tuniau bwyd, fel y rhai sy'n dal ffa a chawl
- ✔ Tuniau siocled a bisgedi metel, a'u caeadau
- ✔ Erosolau gwag
- ✔ Haenau a thybiau ffoil glân

**Cartons**

- ✔ Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak, fel y rhai sy'n dal sudd ffrwythau, llaeth a chawl

### ✘ Dim diolch

**Metelau**

- ✘ Pecynnau creision *
- ✘ Deunydd lapio losin ffoil *
- ✘ Pecynnau ffoil wedi'u lamineiddio sy'n dal bwyd a diod fel coffi, sudd, reis, bwyd babanod neu fwyd anifeiliaid *
- ✘ E-sigarennau a 'vapes' a'u batris **

* Os bydd angen cael gwared ar yr eitemau arnoch, gweler tudalen 13.

** Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol, os gwelwch yn dda.

**Cofiwch:**

- tynnwch unrhyw bympiau o boteli nwyddau ymolchi a'u rhoi yn eich bagiau du
- tynnwch unrhyw haenen blastig neu badiau amsugnol a'u rhoi yn eich bagiau du
- gwagiwch a rinsiwch eitemau metel a phlastig
- gwasgwch eitemau metel a phlastig yn ddiogel i'w gwneud yn llai, os yw'n bosibl
- sicrhewch fod erosolau'n wag
- sicrhewch fod ffoil yn lân

# Beth sy'n mynd i ble?



## Metelau a phlastigion cymysg – parhad...

### ✔ Ie, plîs

**Plastigion**

- ✔ Poteli gofal croen a nwyddau ymolchi plastig, fel y rhai sy'n dal sebon dwylo, sebon corff, gel cawod, siampŵ, cyflyrydd gwallt a swigod bath
- ✔ Poteli nwyddau glanhau plastig, fel y rhai sy'n dal cannydd, hylif golchi llestri, hylif golchi dillad, a chyflyrydd ffabrig, a thybiau sy'n dal capsiwlau a thabledi golchi dillad
- ✔ Poteli diodydd plastig, fel y rhai sy'n dal diodydd ysgafn, llaeth a dŵr
- ✔ Potiau plastig, fel potiau hufen ac iogwrt
- ✔ Tybiau plastig, fel potiau menyn, marjarîn, siocled, losin a hufen iâ
- ✔ Tybiau plastig fel y rhai sy'n dal teisenni, myffins a chig
- ✔ Potiau plastig, fel y rhai sy'n dal ffrwythau a llysiau
- ✔ Tybiau a chaeadau plastig o'r tecawê
- ✔ Poteli plastig o'ch garej, tŷ gwydr neu sied, fel poteli bwyd planhigion nad ydynt yn wenwynig

### ✘ Dim diolch

**Plastigion**

- ✘ Bagiau a deunydd lapio plastig (gweler tudalen 13)
- ✘ Eitemau plastig du neu frown ***
- ✘ Rhwydi a ddefnyddir fel pecynnau ffrwythau a llysiau ***
- ✘ Bagiau bwyd sych cathod a chŵn ***
- ✘ Bagiau compost a phridd i'r ardd ***
- ✘ Pecynnau swigod, hynny yw, y pecynnau plastig a ddefnyddir i ddal tabledi a chapsiwlau ***
- ✘ Brwshys dannedd a thiwbiau past dannedd ***
- ✘ Raseli plastig ***
- ✘ Plastigion caled, fel cadeiriau o'r ardd, teganau plant, biniau o'r gegin, powlenni golchi llestri, potiau blodau a chynwysyddion Tupperware ****
- ✘ Tanwyr ****
- ✘ Poteli nwy ****

*** Rhowch yr eitemau hyn yn eich bagiau du.

**** Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol, os gwelwch yn dda.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Cardfwrdd




**Bag oren**




### ✔ Ie, plîs

- ✔ Bocsys cardfwrdd, fel y rhai a ddefnyddir ar gyfer grawnfwydydd, tabledi peiriant golchi llestri, esgidiau, hancesi papur, nwyddau ymolchi, a phast dannedd
- ✔ Tiwbiau papur toiled
- ✔ Cartonau wyau
- ✔ Llewys cardfwrdd a ddefnyddir i ddal bwydydd, yn cynnwys prydau parod a phecynnau aml-becyn
- ✔ Cardiau cyfarch heb fathodynnau, rhubanau, ffoil neu lwch llachar arnynt
- ✔ Cefnau cardfwrdd o becynnau batris a brwshys dannedd
- ✔ Bocsys ac amlenni cardfwrdd o ddanfoniadau siopa ar-lein
- ✔ Papur brown a llwyd

### ✘ Dim diolch

- ✘ Cardfwrdd sydd wedi'i halogi â bwyd, olew, saim neu baent, fel bocsys pizza *
- ✘ Cardiau cyfarch sydd â bathodynnau, rhubanau, ffoil neu lwch llachar na ellir ei dynnu oddi arnynt *
- ✘ Papur lapio *
- ✘ Polystyren *
- ✘ Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak, fel y rhai sy'n dal sudd ffrwythau, llaeth a chawl **

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bagiau du.

** Rhowch yr eitemau hyn yn eich bag glas ar gyfer metelau a phlastigion cymysg.

### Cofiwch:

- fflatiwch eich cardfwrdd a'i dorri'n ddarnau llai i sicrhau ei fod yn ffitio yn eich bag
- cadwch gardfwrdd yn sych

# Beth sy'n mynd i ble?

## Papur




**Bag gwyn**




### ✔ Ie, plîs

- ✔ Llythyrau
- ✔ Amlenni, gyda ffenestri neu heb
- ✔ Cylchgronau
- ✔ Papurau newydd
- ✔ Llyfrynnau a chatalogau
- ✔ Papur argraffydd
- ✔ Symiau bach o bapur wedi'i rwygo'n fân, fel derbynebau a biliau'r cartref

### Cofiwch:

- cadwch bapur yn sych

### ✘ Dim diolch

- ✘ Papur cegin, tyweli papur, a hancesi papur *
- ✘ Cardiau crafu *
- ✘ Papurau gludiog fel nodiadau Post-it, labeli gludiog a thâp papur *
- ✘ Papur wal *
- ✘ Papur lapio *
- ✘ Papur wedi'i halogi â bwyd, olew, saim neu baent *
- ✘ Papur gwlyb o unrhyw fath *
- ✘ Papur brown neu lwyd **

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bagiau du.

** Rhowch yr eitemau hyn yn eich bag oren ar gyfer cardfwrdd.

Rydym yn casglu'ch **ailgylchu** o'ch cartref **bob wythnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Batris






**Bag bach gwyn**

### ✔ Ie, plîs

- ✔ Batris o'r cartref, fel rhai AAA, AA, B, C, D, DD a 9V

### ✘ Dim diolch

- ✘ Batris 'botwm' lithiwm-ïon, fel y rhai a ddefnyddir mewn cyfrifianellau, dyfeisiau cymorth clyw, a watshis *
- ✘ E-sigarennau a 'vapes' a'u batris *
- ✘ Batris y gellir eu gwefru o liniaduron, ffonau symudol, tŵls trydan a sugnwyr llwch *
- ✘ Batris ceir *
- ✘ Teclynnau gwefru batris *

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol, os gwelwch yn dda.

## Eitemau trydanol bach





**Gosodwch unrhyw eitemau trydanol bach yn rhydd ar ben un o'ch cynwysyddion ailgylchu.**

**Peidiwch â'u rhoi mewn unrhyw fath o gynhwysydd, yn cynnwys unrhyw fagiau plastig untro.**

### ✔ Ie, plîs

- ✔ Tegellau
- ✔ Sychwyr gwallt
- ✔ Tostwyr
- ✔ Tŵls trydanol
- ✔ Radios
- ✔ Heyrn smwddio

### ✘ Dim diolch

- ✘ Horsys eirio dillad trydan *
- ✘ Setiau teledu *
- ✘ Sugnwyr llwch *
- ✘ Microdonau *
- ✘ Oergelloedd/rhewgelloedd *

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol, os gwelwch yn dda.

Rydym yn casglu'ch **ailgylchu** o'ch cartref **bob wythnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Gwastraff o'r ardd




**Bag gwyrdd**



### ✔ Ie, plîs

- ✔ Gwair, dail a'r rhan fwyaf o chwyn
- ✔ Planhigion a blodau
- ✔ Toriadau llwyni a thorion gwrychoedd
- ✔ Gwelyau anifeiliaid o ddeunyddiau fel gwair, gwellt, neu siafins pren a ddefnyddir gan anifeiliaid nad ydynt yn bwyta cig

### Cofiwch:

- rydym yn casglu gwastraff o'r ardd rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd
- gellir 'galw a gofyn' am wasanaeth rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror, os bydd angen un arnoch

**!**

**O 1 Gorffennaf 2023, byddwn yn gwneud newidiadau i'ch casgliadau gwastraff o'r ardd. Byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân am y newidiadau hyn.**

### ✘ Dim diolch

- ✘ Pridd, cerrig neu foncyffion **
- ✘ Chwyn ymledol fel Canclwm Japan ***
- ✘ Unrhyw ddodrefn o'r ardd, boed yn blastig neu'n bren **
- ✘ Baw anifeiliaid neu bobl *
- ✘ Gwelyau anifeiliaid a ddefnyddir gan anifeiliaid sy'n bwyta cig *

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bagiau du.

** Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol, os gwelwch yn dda.

*** Trefnwch i gontractwr arbenigol ddod i gasglu hwn a chael gwared arno'n ddiogel.

Rydym yn casglu'ch **gwastraff o'r ardd** o'ch cartref **bob pythefnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Gwastraff na ellir ei ailgylchu



Bagiau du




### Ie, plîs

- ✔ Poteli, potiau a thybiau plastig du neu frown
- ✔ Cewynnau
- ✔ Weips gwlyb
- ✔ Polystyren
- ✔ Holl wastraff o'r cartref sy'n weddill na ellir ei ailgylchu *

* Os bydd angen ichi gael gwared ar unrhyw **fagiau a deunydd lapio plastig**, gweler tudalen 13 i ddarganfod sut gallwch ailgylchu'r rhain mewn mannau ailgylchu oddi cartref, fel archfarchnadoedd.

!

**O 1 Gorffennaf 2023, byddwn yn gwneud newidiadau i'ch casgliadau bagiau du. Byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân am y newidiadau hyn.**

### Dim diolch

- ✘ Unrhyw eitemau y gellir eu hailgylchu o gartref gan ddefnyddio'r cynwysyddion a roddwyd ichi gan y Cyngor, neu eitemau y gellir eu hailgylchu yn eich Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol

### Cofiwch:

- cewch roi hyd at ddau fag du allan bob pythefnos
- peidiwch â rhoi gwastraff ychwanegol allan wrth ymyl eich dau fag du. Yr enw ar hyn yw 'gwastraff ochr'. Nid ydym yn casglu 'gwastraff ochr' ac efallai y byddai'n rhaid i chi dalu dirwy

Rydym yn casglu eich **gwastraff na ellir ei ailgylchu** o'ch cartref **bob pythefnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Beth ddylwn ei wneud â bagiau a deunyddiau lapio plastig?

Os bydd angen ichi gael gwared ar unrhyw **fagiau neu ddeunydd lapio plastig**, caiff yr eitemau hyn eu derbyn **mewn mannau ailgylchu oddi cartref** mewn lleoliadau fel archfarchnadoedd.

Ewch i **cymruynailgylchu.org.uk** i ddod o hyd i'ch cyfleuster agosaf.

Mae'n bosibl bydd y mathau o eitemau a dderbynnir yn amrywio o un lleoliad i'r llall, felly dilynwch y canllawiau a roddir gan y sefydliad, os gwelwch yn dda.

Os na allwch fynd â'r eitemau hyn i un o'r cyfleusterau hyn a bod angen ichi gael gwared arnynt gartref, yna rhowch nhw yn eich **bagiau du**.



**Bagiau plastig a Bagiau am Oes**



**Bagiau ffrwythau, salad a llysiau wedi'u pacio'n barod**


**Bagiau plastig tenau ar gyfer eitemau ffrwythau, salad a llysiau rhydd**


**Haenau plastig fel haenen lynu, caeadau prydau parod neu gaeadau potiau iogwrt**


**Bagiau rhewgell**



**Bagiau bwyd rhewgell**



**Bagiau pasta a reis**



**Bagiau bara**


**Bagiau lapio cylchgronau a phapurau newydd**



**Deunydd lapio pecynnau aml-becyn a'r dolenni plastig oddi ar becynnau aml-becyn o boteli a chaniau**


**Bagiau leinio bocsys grawnfwyd**



**Deunydd lapio o becynnau papur toiled a phapur cegin**


**Bagiau sych lanhawyr a bagiau sy'n gorchuddio dillad newydd**



**Bagiau parseli a swigod lapio**


**Tâp pacio a thâp gludiog**



**Pecynnau creision a bisgedi**


**Pecynnau neu 'godenni' ffoil wedi'i lamineiddio, fel y rhai sy'n dal coffi, sudd, reis, bwyd babanod neu fwyd anifeiliaid anwes**

**Peidiwch â rhoi bagiau a deunydd lapio plastig yn eich bag glas ar gyfer metelau a phlastigion cymysg.**

# Cwestiynau cyffredin

## Beth sy'n digwydd i fy ailgylchu unwaith y byddwch wedi'i gasglu?

I ddarganfod beth sy'n digwydd i'ch ailgylchu unwaith y byddwn wedi'i gasglu, ac i ble mae'n mynd, ewch i **www.myrecyclingwales.org.uk/cy**

I ddarganfod beth mae'ch ailgylchu'n cael ei ddefnyddio i'w wneud, ewch i **www.cymruynailgylchu.org.uk**

## Beth gaf ei wneud gyda fy hen gynwysyddion ailgylchu?

Cewch barhau i ddefnyddio eich bag glas presennol i ailgylchu:

- caniau, tuniau, erosolau a ffoil metel,
- poteli, potiau a thybiau plastig, a
- chartonau bwyd a diod (fel Tetra Pak) ychwanegol.

Cewch hefyd barhau i ddefnyddio eich bocs gwyrdd presennol i ailgylchu unrhyw boteli a jariau gwydr ychwanegol.

## Allaf i gael cynwysyddion ailgylchu ychwanegol?

Gallwch. Os hoffech gael cynwysyddion ychwanegol, cewch eu casglu o fannau darparu lleol, fel eich llyfrgell leol, neu cewch gysylltu â ni.

## Rwy'n derbyn 'casgliad â chymorth' ar hyn o bryd. A fydd hyn yn parhau?

Bydd. Os ydych chi'n derbyn 'casgliad â chymorth' ar hyn o bryd, byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth i chi. Ni fydd angen ichi gofrestru o'r newydd i dderbyn y gwasanaeth hwn.

## Allaf i ddim rhoi fy ailgylchu a fy ngwastraff na ellir ei ailgylchu allan i chi ei gasglu. Allwch chi fy helpu gyda hyn, os gwelwch yn dda?

Os ydych chi'n methu rhoi eich ailgylchu a fy ngwastraff na ellir ei ailgylchu allan i ni ei gasglu oherwydd bod eich symudedd wedi'i gyfyngu arno, dros dro neu'n barhaol, ac nad oes neb arall i'ch helpu, cewch gysylltu â ni i wneud cais am 'gasgliad â chymorth' a byddwn yn asesu eich sefyllfa.

'Casgliad â chymorth' yw pan fo'n criwiau'n casglu eich ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu o fan casglu a gytunwyd arno sy'n gyfleus ac yn hawdd i chi ei gyrraedd.



# Cwestiynau cyffredin

## Dim ond ychydig bach o ailgylchu rwy'n ei greu. A oes rhaid imi ddefnyddio'r holl gynwysyddion newydd?

Os mai dim ond ychydig bach o ailgylchu'r ydych chi'n ei greu, efallai y byddech yn elwa o gyfnewid eich cynwysyddion newydd am 'fag cwad' unigol. Un bag ailddefnyddiadwy gyda phedair poced yw hwn:

- un i'ch poteli a jariau gwydr,
- un i'ch metelau, plastigion a chartonau bwyd a diod (fel Tetra Pak) cymysg,
- un i'ch cardfwrdd, ac
- un i'ch papur.

Cysylltwch â ni i drafod eich anghenion.

Os fyddwn yn danfon y 'bag cwad' newydd hwn i'ch cartref, byddwn yn casglu eich bag glas presennol, a'ch cadi llwyd, bag oren a bag gwyn newydd.

## Beth arall allaf i ei ailgylchu gartref?

I ddarganfod pa wastraff o'r cartref arall y gallwch ac na allwch ei ailgylchu gartref, defnyddiwch ein canllaw A i Y defnyddiol. Mae'n gadael ichi chwilio am eitem ac fe fyddwn yn dweud wrthych sut i'w ailgylchu neu gael gwared arno'n gywir.

Gallwch ddod o hyd i'n 'A i Y ailgylchu' ar ein gwefan.

## Beth arall allaf i ei ailgylchu ym Mro Morgannwg?

Cewch ailgylchu amrywiaeth eang o ddeunyddiau yn eich Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

## Mae angen help arnaf i sortio ac ailgylchu fy ngwastraff. Allwch chi fy helpu, os gwelwch yn dda?

Mae gennym dîm o Swyddogion Ailgylchu, a gallant:

- roi cyngor ac arweiniad ichi am ein holl wasanaethau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu,
- eich cefnogi i ailgylchu'r gorau gallwch chi a lleihau eich gwastraff na ellir ei ailgylchu, ac
- ystyried a allai fod angen 'lwfans' ichi roi bag du ychwanegol o wastraff na ellir ei ailgylchu allan i'w gasglu, os ydych chi'n sortio eich gwastraff yn gywir ac yn ailgylchu popeth y gallwch chi.

I drefnu i un o'n Swyddogion Ailgylchu ymweld â chi yn eich cartref, cysylltwch â ni.

# Beth ddylwn ei wneud â gwastraff swmpus?

## Ydych chi am glirio'ch eitemau cartref mawr diangen?

Os oes gennych ddarnau mawr o ddodrefn a nwyddau nad ydych eu heisiau mwyach, gallwch archebu **casgliad gwastraff cartref swmpus.**

**Gallwn gasglu'r eitemau canlynol:**

- Gwelyau a soffas
- Matresi
- Byrddau a chadeiriau
- Wardrobau
- Poptai a pheiriannau golchi llestri
- Oergelloedd a rhewgelloedd, a pheiriannau golchi a sychu dillad
- Carpedi neu isgarpedi



I ddarganfod faint mae'r gwasanaeth hwn yn ei gostio neu i drefnu casgliad, ewch i **www.valeofglamorgan.gov.uk/cy** a chwilio am 'swmpus'.

Mae eich **ailgylchu'n gwneud gwahaniaeth MAWR** ym Mro Morgannwg.

Diolch yn fawr i chi am barhau i wneud y peth iawn ac am chwarae eich rhan dros yr amgylchedd, drwy ddidoli eich gwastraff ac ailgylchu popeth y gallwch.


**www.valeofglamorgan.gov.uk/ailgylchu**

**C1V@valeofglamorgan.gov.uk**

**01446 700111**

**Cyngor Bro Morgannwg**

**@CBroMorgannwg**


Argraffwyd ar bapur 100% eilgylch